Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano

Caneuon Ffydd: Rhif 787

Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano,
hedd, nefol hedd, a ddaeth drwy ddwyfol loes;
pan fyddo'r don ar f'enaid gwan yn curo
mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes.

O rho yr hedd na all y stormydd garwaf
ei flino byth na chwerwi ei fwynhad
pan fyddo'r enaid ar y noson dduaf
yn gwneud ei nyth ym mynwes Duw ein Tad.

Rho brofi'r hedd a wna im weithio'n dawel
yng ngwaith y nef dan siomedigaeth flin;
heb ofni dim, ond aros byth yn ddiogel
yng nghariad Duw, er garwed fyddo'r hin.

O am yr hedd sy'n llifo megis afon
drwy ddinas Duw, dan gangau'r bywiol bren:
hedd wedi'r loes i dyrfa'r pererinion
heb gwmwl byth na nos, tu hwnt i'r llen.

ELFED, 1860 – 1953

MYFYRDOD

Gofyn am beth syml iawn mae Elfed yma ar yr edrychiad cyntaf; onid yw pawb yn ceisio heddwch a llonyddwch? Onid dyma un o anghenion mwyaf ein byd ar hyn o bryd? Ond am yr hedd sydd yn ddyfnach na llonyddwch a distawrwydd y gofynna Elfed – am 'hedd na ŵyr y byd amdano', am y 'Shalom' sydd yn un o briodoleddau Duw ei hun.

Os ewch chi i Israel, yna'r cyfarchiad fydd 'Shalom' – heddwch – ond mae'n golygu llawer iawn mwy na chyfarchiad. Mae cyflawnder, diogelwch, iechyd, llwyddiant a chyfeillgarwch oll yn rhan o ystyr cyfoethog y gair hwn.

Dyma'r hedd oedd yn perthyn i Iesu ei hun hefyd ac sydd yn cael ei gynnig i ninnau. 'Ef yw ein heddwch ni' dywed Effesiaid 2:14 wrthym, ac yng nghanol stormydd bywyd mae Elfed yn ein sicrhau ei bod yn 'dawel gyda'r Iesu wrth y groes'. A gofiwch chi hanes y storm ar y môr ym Marc pennod 4? Wedi i Iesu ddweud '"Awn drosodd i'r ochr draw"' fe ddaeth hi'n storm fawr ar y môr, ond cysgu drwyddi wnaeth Iesu. Daeth ofn ar y disgyblion, ac roedden nhw'n methu â deall pam nad oedd Iesu yn poeni am y sefyllfa – '"A wyt ti'n hidio dim ei bod ar ben arnom?"' meddent. Edrychodd yntau ar y gwynt ffyrnig a llefaru 'heddwch' wrtho, a 'bydd dawel' wrth y tonnau, ac fe gafwyd llonyddwch eto. Ond trodd wedyn at y storm yng nghalonnau ei ddisgyblion a gofyn: '"Pam y mae arnoch ofn? Sut yr ydych heb ffydd o hyd?"' Yn y fan honno roedd y broblem, yn eu calonnau eu hunain am nad oedden nhw wedi profi heddwch perffaith Duw ei hun.

'"Yr wyt yn cadw mewn heddwch perffaith y sawl sydd â'i feddylfryd arnat, am ei fod yn ymddiried ynot"', medd y proffwyd Eseia (26:3). Fe'n sicrheir bod heddwch perffaith i'w gael er y 'stormydd garwaf' pan fyddwn yn gwneud ein 'nyth ym mynwes Duw ein Tad'. Yn wir sonia'r Beibl am wneud heddwch â Duw cyn profi heddwch Duw drosom ein hunain (Rhuf. 5:1). Gallwn, wedyn, o brofi heddwch personol, fod yn rhannu'n heddwch a 'gweithio'n dawel yng ngwaith y nef', a gall pobl eraill synhwyro'n heddwch ninnau ynghanol pob 'siomedigaeth flin' wrth i ni weini tangnefedd i eraill. 'Os bydd y tŷ yn deilwng, doed eich tangnefedd arno', meddai Iesu wrth anfon ei ddisgyblion allan (Mth. 10:13).

Fuoch chi'n dyheu erioed am fod yn un o'r 'tangnefeddwyr – plant i Dduw', chwedl Waldo, ac am gael eich bendithio yn ôl y Gwynfydau ym Mathew 5 fel rhai sydd yn gallu dwyn harmoni a chytundeb allan o ddisgord a checru? Fe allwn, gyda'n geiriau doeth ac ysbryd tawel, fod yn rhai sydd yn cadw heddwch ac yn dwyn heddwch i fod wrth helpu eraill i wynebu eu hagweddau a'u gweithredoedd anghywir.

GWEDDI

Diolch iti, fy Nhad, mai Duw heddwch wyt ti a dy fod yn llefaru heddwch wrth fy nghalon a'm henaid i. Rho im yr hedd, Arglwydd, a fydd yn para am byth yn dy gwmni di dy hun, sy'n abl i wneud cymaint o wahaniaeth yn fy mywyd i, ac ym mywydau pobl eraill o'm cwmpas i. Yn enw dy Fab, Tywysog tangnefedd. Amen.